# Manyleb cymhwyster

**NCFE CACHE Tystysgrif Lefel 2 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu**
**Rhif: 603/2476/4**

**Fersiwn 2.2** Mehefin 2020

**Cynnwys**

**Crynodeb o newidiadau 3**
**Adran 1: Cyflwyniad cyffredinol 4**
Gwybodaeth am y Fanyleb Cymhwyster 5
Sut mae'r cymhwyster yn gweithio 5
Cyfanswm Amser y Cymhwyster/Dysgu dan Arweiniad: Diffiniadau **Error! Bookmark not defined.**
Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol 6
Dyddiadau cymwysterau 6
Deall canlyniadau dysgu 7
Gwneud defnydd o'n gwefannau 8
Y Wefan Gyhoeddus 8
Gwefan Ddiogel i Ganolfannau 8
Llên-ladrad 9
Cyfleoedd cyfartal 9
Amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant 9
**Adran 2: Gwybodaeth am y cymhwyster hwn 10**
Crynodeb o'r cymhwyster 11
**Adran 3: Unedau 13**
Unedau Gorfodol 14
Cynllun yr unedau 16
Esboniad o dermau a ddefnyddir yn Lefel 2: (nid yw'r berfau i gyd yn cael eu defnyddio yn y cymhwyster hwn) **Error! Bookmark not defined.**
SWSC1: Deall ysgolion a cholegau fel sefydliadau 19
SWSC2: Deall datblygiad plant a phobl ifanc 22
SWSC5: Diogelu plant a phobl ifanc 24
STL2C4: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc 27
STL2C5: Cynnal perthnasoedd â phlant a phobl ifanc 29
STL2C6: Cefnogi iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc 32
STL2C7: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc 35
STL2C8: Cyfrannu at waith tîm mewn amgylchedd dysgu 38
STL2C9: Deall chwarae a hamdden plant a phobl ifanc 40
STL2C10: Hyrwyddo amgylchedd dysgu effeithiol 42
STL2C11: Darparu arddangosfeydd mewn amgylchedd dysgu 45
**Adran 4: Gwybodaeth am asesu a sicrhau ansawdd 47**
Dulliau asesu a argymhellir 48
Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn 50
Strategaeth Asesu 50
Gofynion ar gyfer Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol 51
Aseswyr 51
Sicrhau Ansawdd Mewnol 52
**Adran 5: Dogfennau 53**
Dogfennau defnyddiol 54
Dogfennau gorfodol 54
Adnoddau 54

**Crynodeb o newidiadau**

**Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb o’r newidiadau i Fanyleb y Cymhwyster hwn.**

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| v1.0 | Ionawr 2018 | Cyhoeddiad cyntaf |
| v2.0 | Medi 2018 | Newid i ODDA ar gyfer y cymhwyster a 5 uned (STL2C4, STL2C5, STL2C7, STL2C8, STL2C10) |
| v2.1 | Chwefror 2020 | Dileu'r DU o fewn 'Gwledydd Cartref y DU' trwy’r cymhwyster. Ychwanegu adran Adnoddau – gwybodaeth am ddiogelu a lles dysgwyr. |
| v2.2 | Mehefin 2022 | SWSC5 ychwanegu deunydd ar y cyfnod clo i ddigwyddiadau diogelwch yn y canllawiau.<br><br>STL2C6 ychwanegu canllawiau ynghylch asesu cyfannol posibl ar draws unedau.<br><br>STL2C9 AC1.5 ailfformatio'n bwyntiau bwled i wneud y gofynion yn gliriach.<br><br>Diweddaru Gofynion mynediad.<br><br>Diweddaru Dull asesu, rhaid cwblhau asesiadau yn Saesneg. |

# Adran 1: Cyflwyniad cyffredinol

## Gwybodaeth am y Fanyleb Cymhwyster

Mae’r Fanyleb Cymhwyster hon yn cynnwys manylion am yr holl unedau y byddwch angen eu cwblhau i gyflawni’r cymhwyster hwn. Dylid ei defnyddio ar y cyd â’r Canllaw Tiwtoriaid ar gyfer y cymwysterau hyn sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Tiwtoriaid a/neu Aseswyr.

## Sut mae’r cymhwyster yn gweithio

Mae nifer o unedau’n ffurfio’r cymhwyster, a phob un yn cynrychioli cam dysgu bach. Mae hyn yn golygu bod modd cwblhau’r cymhwyster yn ôl eich pwysau eich hun.

Gellir ‘bancio’r’ holl unedau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i chi ailastudio’r unedau hynny os oes arnoch eisiau cymryd cymhwyster arall sy’n cynnwys yr un unedau.

Mae gan bob uned:

- **lefel** – yn dangos pa mor anodd ydyw
- **gwerth credyd** – mae un credyd yn cynrychioli tua 10 awr o waith
- **nod yr uned** – yn esbonio beth y mae’r uned yn ymdrin ag ef
- **canlyniadau dysgu** – yn ymdrin â’r hyn y mae’n rhaid i chi ei wneud (sgiliau) neu’r hyn y mae’n rhaid i chi ei ddeall (gwybodaeth)
- **meini prawf asesu** – beth y mae’n rhaid i chi ei ddangos (tystiolaeth).

Mae pob canlyniad dysgu’n gysylltiedig â nifer o feini prawf asesu. Mae’n rhaid darparu tystiolaeth o’r holl feini prawf asesu i gyflawni’r uned.

| **Learning outcomes** The learner will: | **Assessment criteria** The learner can: | **Evidence record** e.g. page number & method | **Assessor judgement achieved** Initial and date |
|---|---|---|---|
| 1. Know substances which are commonly misused. | 1.1. List **categories** of substances which are commonly misused. | | |
| | 1.2. Identify substances which are commonly misused. | | |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster/Dysgu dan Arweiniad: Diffiniadau

Mae Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT) yn cynnwys y ddwy brif elfen isod:

- nifer yr oriau sydd wedi’u clustnodi ar gyfer Dysgu dan Arweiniad
- amcangyfrif o’r oriau y bydd Dysgwr yn debygol o’u treulio’n paratoi, astudio neu ryw ffurf arall o gymryd rhan mewn dysgu neu hyfforddi, ond nid dan oruchwyliaeth uniongyrchol tiwtor neu aseswr.

Gall canolfannau benderfynu sut i glustnodi Cyfanswm Amser y Cymhwyster ar gyfer pob uned o fewn cymhwyster.

Dysgu dan Arweiniad

- Mae Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Amser y Cymhwyster yn elfennau perthnasol i’r cymhwyster cyfan.
- Cyfeiria’r term Dysgu dan Arweiniad at yr amcangyfif o oriau dysgu ar gyfer pob uned.

## Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Gall canolfannau gydnabod profiad o ddysgu blaenorol fel a fynnant os ydyn nhw’n fodlon bod y dystiolaeth sy’n cael ei chynnig yn cydymffurfio â gofynion y cymhwyster. Os yw’r fath gydnabyddiaeth i’w defnyddio ar raddfa eang (ar gyfer uned gyfan neu fwy), rhaid cael cyngor eich Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

## Dyddiadau cymwysterau

Mae gan gymwysterau rheoledig ddyddiadau gorffen gweithredol a dyddiadau gorffen ardystio.

Rydym yn adolygu cymwysterau'n rheolaidd, gan weithio gyda chynrychiolwyr y sector, arbenigwyr galwedigaethol a rhanddeiliaid i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddiwallu anghenion y sector ac i adlewyrchu datblygiadau diweddar.

Os penderfynir tynnu cymhwyster yn ôl, byddwn yn pennu dyddiad gorffen gweithredol ac yn rhoi rhybudd rhesymol i'n canolfannau. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr.

Dim ond ar Gofrestr Cymwysterau Rheoledig Ofqual register.ofqual.gov.uk ac ar wefan NCFE y bydd dyddiad gorffen gweithredol yn cael ei ddangos os penderfynwyd tynnu cymhwyster yn ôl. Ar ôl y dyddiad hwn ni allwn dderbyn cofrestriadau dysgwyr mwyach. Fodd bynnag, caniateir ardystiad tan y dyddiad gorffen ardystio fel bod gan ddysgwyr amser i gwblhau unrhyw raglenni astudio. Bydd y dyddiad gorffen ardystio ond yn dangos ar Gofrestr Ofqual unwaith y bydd dyddiad gorffen gweithredol wedi'i bennu. Ar ôl y dyddiad hwn, ni allwn brosesu hawliadau ardystio mwyach.

## Deall canlyniadau dysgu

Mae yna ddau brif fath o ganlyniadau dysgu:

- **Sgiliau** y gellir eu perfformio.
- **Gwybodaeth** y gellir ei dysgu.

Weithiau, maent yn ymdrin â chyfyniad o'r ddau.

**Canlyniadau dysgu seiliedig ar gymhwysedd/sgiliau:**

- Yn dechrau gyda 'Yn gallu'. Mae'r meini prawf asesu fel rheol yn dangos bod modd arsylwi ar y dystiolaeth o fewn amgylchedd gwaith go iawn. Mae'n bosibl defnyddio dulliau eraill, gweler y siart yn yr adran Canllawiau Asesu. Mae'n rhaid seilio'r holl dystiolaeth ar brofiad y dysgwr mewn amgylchedd gwaith go iawn.

**Canlyniadau dysgu seiliedig ar wybodaeth:**

- Yn dechrau gyda 'Gwybod', 'Deall' neu 'Gwybod sut i'.

Er hwylustod i chi, mae unedau Gwybodaeth yn unig yn cael eu dynodi gan seren yn y Cofnod Cyflawni Uned ac ar frig yr unedau.

Os nad oes seren yn dynodi uned, mae'n uned sgiliau neu'n uned sy'n cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth.

## Gwneud defnydd o'n gwefannau

Caiff ein gwefannau eu diweddaru'n rheolaidd a dyma ble mae'r dogfennau diweddaraf i'w cael. Rydym yn cynghori'n gryf eich bod yn defnyddio'r rhain fel adnodd yn barhaus i sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf bob amser.

Rheolir **holl** ddogfennau ein cymwysterau yn ôl fersiwn, sy'n eich galluogi i wirio am ddiweddariadau neu ddiwygiadau.

### Y Wefan Gyhoeddus

Mae gwefan NCFE yn cynnwys gwybodaeth am ein holl gymwysterau, gan gynnwys:

- Ffeithiau Allweddol
- Manylebau Cymhwyster
- Deunyddiau cymorth eraill.

Mae yna hefyd rhai dogfennau allweddol eraill y gellir cyfeirio atynt yn ôl yr angen. Er enghraifft:

- Trefn Gwyno
- Proses Apelio
- Datganiad Amrywiaeth

Mae hefyd yn cyhoeddi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd ac yn cynnwys astudiaethau achos a dolenni i wefannau cyrff eraill a allai fod o ddiddordeb.

### Gwefan Ddiogel i Ganolfannau

Gellir canfod gwybodaeth fwy penodol i gefnogi gwaith Canolfannau ar ein gwefan ddiogel.

I gael mynediad i'r safle diogel, cliciwch ar y ddolen ar wefan NCFE a mewngofnodwch gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd gan weinyddwr y Ganolfan.

## Llên-ladrad

Mae llên-ladrad yn golygu hawlio mai eich gwaith chi yw rhywbeth sydd wedi'i gopïo o rywun neu rywle arall. Mae'n rhaid mai eich gwaith chi yw'r holl waith yr ydych yn ei gyflwyno, ac nid gwaith sydd wedi'i gopïo o rywun arall oni bai eich bod wedi cyfeirio'n glir at ffynhonnell eich gwybodaeth. Bydd eich Tiwtor yn esbonio sut i ddarparu rhestr o gyfeiriadau sy'n dangos o ble gawsoch chi eich gwybodaeth. Os yw eich Canolfan yn darganfod tystiolaeth bod eich gwaith wedi'i gopïo o rywle arall, ni fydd yn cael ei dderbyn ac mae'n bosibl y byddwch yn wynebu trefn ddisgyblu eich Canolfan neu ein trefn ddisgyblu ni. Os yw hyn yn digwydd, bydd yn rhaid i chi gyflwyno darn ychwanegol o waith ar gyfer asesiad. Byddwn yn derbyn gwybodaeth am bob achos o lên-ladrad.

**Prynu a gwerthu aseiniadau**

Ni chaniateir i unrhyw un gynnig prynu neu werthu aseiniadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd fel eBay. Os yw hyn yn digwydd, mae'r hawl gennym i wrthod unrhyw geisiadau pellach y byddwch yn eu cyflwyno.

## Cyfleoedd cyfartal

Rydym yn llwyr gefnogi egwyddor cyfle cyfartal ac yn gwrthwynebu pob gwahaniaethu anghyfreithlon neu annheg ar sail gallu, oedran, lliw, diwylliant, anabledd, amgylchiadau domestig, statws cyflogaeth, rhywedd, statws priodasol, cenedligrwydd, cyfeiriadedd gwleidyddol, tarddiad hiliol, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir cymdeithasol. Ein nod yw sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo a bod gwahaniaethu anghyfreithlon neu annheg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael ei ddileu o ran arferion cyflogaeth ac o ran mynediad at y cymwysterau. Mae copi o bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb CACHE ar gael ar y wefan.

## Amrywiaeth, mynediad a chynhwysiant

Mae ein cymwysterau a'n hasesiadau cysylltiedig wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn anwahaniaethol. Rydym yn gwerthuso ac yn monitro'r 6 llinyn amrywiaeth yn rheolaidd (rhywedd, oedran, hil, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol) trwy gydol y broses ddatblygu yn ogystal â phrosesau cyflwyno, cymedroli allanol a threfniadau asesu allanol cymwysterau byw. Mae hyn yn sicrhau bod agweddau cadarnhaol a chysylltiadau da yn cael eu hyrwyddo, na ddefnyddir iaith wahaniaethol a bod ein gweithdrefnau asesu yn gwbl gynhwysol.

Dylai dysgwyr sydd angen addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig drafod eu gofynion â'u Tiwtor, a ddylai gyfeirio at ein polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig i gael arweiniad. I gael mwy o wybodaeth am y polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig, gweler gwefan NCFE.

# Adran 2: Gwybodaeth am y cymhwyster hwn

## Crynodeb o'r cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Teitl** | NCFE CACHE Tystysgrif Lefel 2 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu |
| **Rhif y cymhwyster** | 603/2476/4 |
| **Nod** | Mae'r Dystysgrif Lefel 2 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu wedi'i chynllunio i roi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn amgylcheddau ysgol neu goleg. Mae'n cwmpasu ystod eang o feysydd gan gynnwys datblygiad plant a phobl ifanc, cefnogi ymddygiad a chyfathrebu cadarnhaol plant a phobl ifanc a pherthnasoedd proffesiynol.<br><br>Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n gweithio mewn rolau sy'n cefnogi dysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig, yn ogystal â cholegau. |
| **Pwrpas**<br>Cod Ofqual a disgrifiad (lle'n briodol) | C. Paratoi ar gyfer cyflogaeth<br><br>C2. Paratoi ar gyfer cyflogaeth mewn maes galwedigaethol penodol |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (oriau)** | 321 |
| **Dysgu dan Arweiniad (oriau)** | 225 |
| **Gwerth credyd** | 32 |
| **Isafswm oedran y dysgwr** | 16 oed |
| **Ystod oedran yr ymdrinnir ag ef yn y cymhwyster** | O 5 mlwydd oed. Sylwch fod rhywfaint o wybodaeth am ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar wedi'i chynnwys yn y fanyleb i wella dealltwriaeth dysgwyr. |
| **Gofynion/argymhellion o ran amgylchedd gwaith real** | Bydd angen i ddysgwyr fod yn gweithio neu ar leoliad ymarferol drwy gydol y cwrs mewn amgylchedd dysgu (ysgol neu goleg), gan fod angen iddynt ddangos cymhwysedd mewn sgiliau a gwybodaeth. |
| **Rheolau cyfuno** | Mae pob uned yn orfodol. |

| | |
|---|---|
| **Dilyniant** | Gall dysgwyr symud ymlaen i'r Dystysgrif neu Ddiploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu, neu i'r gweithlu. |
| **Dulliau asesu a argymhellir** | Bydd yr holl unedau'n cael eu hasesu'n fewnol gan ddefnyddio ystod o ddulliau a allai gynnwys:<br>• arsylwi uniongyrchol gan Diwtor/Athro/Aseswr* yn y gweithle<br>• aseiniadau ysgrifenedig a thrafodaeth broffesiynol yn unol â'r Asesiad o Ddysgu a ddarperir ar gyfer pob uned.<br><br>*am ragor o fanylion gweler tudalen 49 |
| **Gofynion asesu pellach** | Rhaid asesu pob uned yn unol â'n hegwyddorion asesu.<br><br>Drwy gydol y fanyleb hon, rydym wedi cyfeirio at yr ymadrodd 'Amgylchedd Dysgu', sy'n cyfeirio at y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau.<br><br>Oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg. |
| **System raddio** | Bydd y cymhwyster yn cael ei raddio Wedi Cyflawni neu Heb Gyflawni Eto a rhaid cyflawni'r holl feini prawf asesu er mwyn cael y Dystysgrif. |
| **Faint o amser a gymerir i'w gwblhau?** | Fel arfer, mae'n bosibl cwblhau'r Dystysgrif mewn blwyddyn. |
| **Gofynion/argymhellion mynediad** | Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn 16 oed o leiaf. Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond efallai y bydd gan Ganolfannau eu canllawiau eu hunain.<br><br>Mae cofrestru yn ôl disgresiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid ei wneud ar y Porth. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 603/2476/4. |

# Adran 3: Unedau

## Unedau Gorfodol

| | Cyfeirnod yr uned | Rhif yr uned | Teitl yr uned | Math o uned | Lefel | Credyd | Dysgu dan Arweiniad | Tudalen | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☆ | **H/616/5424** | SWSC1 | Deall ysgolion a cholegau fel sefydliadau | Gwybodaeth | 2 | 2 | 15 | 23 | |
| ☆ | **K/616/5425** | SWSC2 | Deall datblygiad plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 2 | 3 | 20 | 27 | |
| ☆ | **F/616/5429** | SWSC5 | Diogelu plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 2 | 3 | 20 | 29 | |
| ☆ | **K/616/5442** | STL2C4 | Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 2 | 3 | 20 | 33 | |
| | **M/616/5443** | STL2C5 | Cynnal perthnasoedd â phlant a phobl ifanc | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 3 | 20 | 35 | |
| | **M/616/5457** | STL2C6 | Cefnogi iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 3 | 30 | 39 | |
| | **M/616/5460** | STL2C7 | Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 4 | 20 | 43 | |

| | **Cyfeirnod yr uned** | **Rhif yr uned** | **Teitl yr uned** | **Math o uned** | **Lefel** | **Credyd** | **Dysgu dan Arweiniad** | **Tudalen** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A/616/5462** | STL2C8 | Cyfrannu at waith tîm mewn amgylchedd dysgu | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 3 | 20 | 45 | |
| ☆ | **J/616/5464** | STL2C9 | Deall chwarae a hamdden plant a phobl ifanc | Gwybodaeth | 2 | 3 | 20 | 47 | |
| | **R/616/5466** | STL2C10 | Hyrwyddo amgylchedd dysgu effeithiol | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 3 | 25 | 49 | |
| | **D/616/5468** | STL2C11 | Darparu arddangosfeydd mewn amgylchedd dysgu | Gwybodaeth / Sgiliau | 2 | 2 | 15 | 53 | |

## Cynllun yr unedau

| **Mae'r deunydd canlynol wedi'i ddarparu ar gyfer pob uned:** | |
|---|---|
| **Teitl yr uned** | Darparu esboniad eglur, cryno o gynnwys yr uned. |
| **Rhif cyfeirnod yr uned** | Y rhif unigryw a ddynodwyd gan berchennog yr uned. |
| **Cyfeirnod yr uned** | Y rhif unigryw a roddwyd i bob uned adeg cymeradwyo gan Ofqual. |
| **Lefel yr uned** | Dynodi lefel yr uned o fewn y fframwaith. |
| **Gwerth credyd yr uned** | Y gwerth a roddwyd i'r uned yn seiliedig ar yr amser dysgu disgwyliedig i ddysgwr cyffredin. |
| **Oriau dysgu dan arweiniad yr uned (ODDA)** | Y nifer oriau cyfartalog o amser astudio neu asesu dan arweiniad neu dan gyfarwyddyd sy'n ofynnol i gyflawni cymhwyster neu uned o gymhwyster. |
| **Nod yr uned** | Darparu amlinelliad byr o gynnwys yr uned. |
| **Canlyniadau dysgu** | Datganiad o'r hyn y bydd dysgwr yn ei wybod, yn deall neu'n gallu'i wneud, o ganlyniad i broses ddysgu. |
| **Meini prawf asesu** | Disgrifiad o'r gofynion y mae'n rhaid i'r dysgwr eu gwneud i arddangos fod canlyniad dysgu wedi'i gyflawni. |

**Esboniad o dermau a ddefnyddir yn Lefel 2: (nid yw'r berfau i gyd yn cael eu defnyddio yn y cymhwyster hwn)**

| | |
|---|---|
| **Amcangyfrif** | Cynnig amcangyfrif o benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol. |
| **Arddangos** | Dangos dealltwriaeth o'r pwnc neu sut i gymhwyso sgiliau mewn sefyllfa ymarferol. |
| **Asesu** | Ystyried gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymhwyso** | Cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol. Gellid cyflwyno hyn fel gwybodaeth ysgrifenedig, diagram, darlun, neu fformat addas arall. |
| **Dangos** | Darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth. |
| **Darlunio** | Rhoi gwybodaeth glir gan ddefnyddio enghreifftiau ysgrifenedig, lluniau neu ddiagramau. |
| **Darparu** | Rhoi gwybodaeth berthnasol am bwnc. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau. |
| **Defnyddio** | Cymryd neu gymhwyso eitem, adnodd, neu ddarn o wybodaeth fel y gofynnir yn y cwestiwn neu'r dasg. |
| **Dewis** | Dewis at ddiben penodol. |
| **Diffinio** | Nodi ystyr gair neu ymadrodd. |
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan roi gwybodaeth fanwl. |
| **Dosbarthu** | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| **Esbonio** | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai rhai ymatebion gynnwys enghreifftiau. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Hynodi** | Dangos neu gydnabod y gwahaniaeth rhwng eitemau/syniadau/gwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr edrych yn ôl ar y camau a gymerwyd ganddynt, eu profiadau neu eu dysgu ac ystyried sut y gallai hyn lywio eu hymarfer yn y dyfodol. |
| **Nodi** | Rhestru neu enwi'r prif bwyntiau. (Efallai y bydd ychydig o ddisgrifiad yn angenrheidiol hefyd i sicrhau marciau uwch wrth ddefnyddio dull marcio cydadferol). |
| **Perfformio** | Gwneud rhywbeth (cymryd cam/dilyn cyfarwyddyd) y mae'r cwestiwn neu'r dasg yn gofyn amdano neu'n ei fynnu. |
| **Rhestru** | Gwneud rhestr o eiriau, brawddegau neu sylwadau allweddol sy'n canolbwyntio ar y pwnc. |
| **Rhoi (pwyntiau cadarnhaol a negyddol)** | Darparu gwybodaeth sy'n dangos manteision ac anfanteision y pwnc. |
| **Trafod** | Ysgrifennu adroddiad sy'n rhoi mwy nag un farn neu safbwynt. |

**SWSC1: Deall ysgolion a cholegau fel sefydliadau**

| **Cyfeirnod yr uned** | **H/616/5424** | **Lefel yr uned** | **2** |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 2 | **ODDA** | 15 |
| **Nod yr uned** | Nod yr uned hon yw paratoi'r dysgwr ar gyfer gweithio mewn ysgol neu goleg. Mae'n cwmpasu gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythur a swyddogaeth sefydliadol yr ysgol a'r coleg. | | |

| **Enw’r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
|---|---|---|---|
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae’r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Gwybod y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau yn y sector addysg. | 1.1 Nodi'r prif fathau o:<br>• ysgolion gwladol<br>• ysgolion annibynnol<br>• colegau. | | |
| | 1.2 Disgrifio nodweddion y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau mewn perthynas â chyfleoedd addysgol. | | |
| 2. Deall trefniadaeth ysgolion a cholegau o ran rolau a chyfrifoldebau. | 2.1 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau:<br>• llywodraethwyr<br>• uwch dîm rheoli<br>• Athrawon a Thiwtoriaid<br>• staff cymorth. | | |
| | 2.2 Disgrifio rolau'r **gweithwyr proffesiynol allanol** a all weithio gydag ysgol neu goleg. | | |
| 3. Deall sut mae ysgolion a cholegau yn cynnal eu nodau a'u gwerthoedd. | 3.1 Esbonio pam mae gan ysgolion a cholegau **nodau a gwerthoedd.** | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| | 3.2 Disgrifio sut mae ysgolion a cholegau yn cynnal eu nodau a'u gwerthoedd. | | |
| 4. Gwybod am ystod a phwrpas polisïau a gweithdrefnau ysgolion a cholegau. | 4.1 Esbonio pam mae gan ysgolion a cholegau bolisïau a gweithdrefnau. | | |
| | 4.1 Nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd gan ysgolion a cholegau ar gyfer:<br>• staff<br>• lles myfyrwyr<br>• addysgu a dysgu. | | |
| | 4.3 Amlinellu un polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig o naill ai ysgol neu goleg. | | |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Canllawiau asesu uned ychwanegol | **Gweithwyr proffesiynol allanol**<br>Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn yr ysgol.<br><br>**Nodau a gwerthoedd**<br>Datganiadau cenhadaeth ac ethos yr amgylchedd dysgu fel:<br>• cadw plant yn ddiogel<br>• darparu amgylchedd sefydlog<br>• meithrin annibyniaeth<br>• hyrwyddo perthynas gadarnhaol â rhieni. |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** SWSC1
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

## SWSC2: Deall datblygiad plant a phobl ifanc

| **Cyfeirnod yr uned** | **K/616/5425** | **Lefel yr uned** | **2** |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 3 | **ODDA** | 20 |
| **Nod yr uned** | Nod yr uned hon yw archwilio datblygiad cyfannol. Bydd yr uned hefyd yn ystyried effeithiau ar ddatblygiad a rôl y gweithiwr cymorth i gefnogi'r plentyn a'r person ifanc pan godir pryderon am ddatblygiad unigolyn. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall camau datblygu arwyddocaol ar gyfer plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 19 oed. | 1.1 Disgrifio patrwm disgwyliedig datblygiad plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 19 oed, i gynnwys:<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu<br>• datblygiad gwybyddol<br>• datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol | | |
| | 1.2 Esbonio sut y gall gwahanol agweddau ar ddatblygiad effeithio ar ei gilydd. | | |
| 2. Deall y mathau o ddylanwadau sy'n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc. | 2.1 Disgrifio effaith bosibl y canlynol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc:<br>• iechyd<br>• cefndir<br>• amgylchedd. | | |
| | 2.2 Esbonio sut i adnabod ac ymateb i **bryderon datblygiadol.** | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 3. Deall effeithiau posibl cyfnodau o bontio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc. | 3.1 Nodi **cyfnodau o bontio** a brofir gan blant a phobl ifanc. | | |
| | 3.2 Disgrifio sut y gall cyfnodau o bontio effeithio ar **ddatblygiad cyfannol** plant a phobl ifanc | | |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Canllawiau asesu uned ychwanegol | **Pryderon datblygiadol**<br>Pan nad yw plentyn yn dilyn patrymau neu gyfradd datblygiad disgwyliedig.<br><br>**Cyfnodau o bontio**<br>Newid o un cam neu gyflwr i un arall.<br><br>**Datblygiad cyfannol (3.2)**<br>Rhoi sylw i ddatblygiad gwybyddol a chorfforol plant yn ogystal â llesiant cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol. |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** SWSC2
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**SWSC5: Diogelu plant a phobl ifanc**

| **Cyfeirnod yr uned** | **F/616/5429** | **Lefel yr uned** | **2** |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 3 | **ODDA** | 20 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddiogelu plant a phobl ifanc. | | |

| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
|---|---|---|---|
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Gwybod am ddiogelu lles plant a phobl ifanc. | 1.1 Nodi deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol ar gyfer diogelu lles plant a phobl ifanc, o fewn y **Genedl Gartref**. | | |
| | 1.2 Disgrifio sut y gellir bodloni gofynion diogelu a lles drwy bolisïau a gweithdrefnau. | | |
| 2. Deall camau i'w cymryd pan fydd plant a phobl ifanc yn sâl neu wedi'u hanafu, gan gynnwys gweithdrefnau brys. | 2.1 Adnabod arwyddion o salwch mewn plant a phobl ifanc. | | |
| | 2.2 Disgrifio'r camau i'w cymryd pan fydd plant a phobl ifanc yn sâl neu'n dioddef **mân anaf**. | | |
| | 2.3 Disgrifio'r camau i'w cymryd mewn ymateb i sefyllfaoedd brys gan gynnwys:<br>• tanau<br>• **digwyddiadau diogelwch**<br>• plant a phobl ifanc sydd ar goll<br>• **argyfwng meddygol** | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 3. Deall gweithdrefnau amddiffyn plant. | 3.1 Nodi gwahanol fathau o gam-drin plant. | | |
| | 3.2 Disgrifio'r camau i'w cymryd os yw plentyn neu berson ifanc yn datgelu niwed neu gamdriniaeth. | | |
| | 3.3 Disgrifio'r camau i'w cymryd mewn ymateb i bryderon y gallai cydweithiwr fod:<br>• yn methu â chydymffurfio â gweithdrefnau diogelu<br>• yn niweidio, cam-drin neu fwlio plentyn neu berson ifanc. | | |
| | 3.4 Diffinio e-ddiogelwch. | | |
| | 3.5 Amlinellu sut y gellir gweithredu e-ddiogelwch mewn ysgol neu goleg. | | |
| 4. Gwybod am bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data. | 4.1 Nodi polisïau a gweithdrefnau perthnasol y Genedl Gartref sy'n cynnwys:<br>• cyfrinachedd<br>• diogelu data<br>• datgelu gwybodaeth. | | |
| | 4.2 Nodi sefyllfaoedd pan fydd yn rhaid torri protocolau cyfrinachedd. | | |

| **Gwybodaeth ychwanegol am yr uned:** | |
|---|---|
| Canllawiau asesu uned ychwanegol | **Cenedl Gartref**<br>Dylai canolfannau rhyngwladol gymharu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol y DU â deddfwriaeth a chanllawiau eu gwlad eu hunain.<br><br>**Mân anaf**<br>Digwyddiad cymorth cyntaf y gellir delio ag ef yn yr amgylchedd dysgu. |

| | |
|---|---|
| | **Digwyddiadau Diogelwch**<br>Dylai gynnwys gosod cyfyngiadau symud ar yr ysgol oherwydd toriad diogelwch.<br><br>**Argyfwng meddygol**<br>Angen triniaeth feddygol neu'r gwasanaethau brys. |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy’n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy’n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo’r uned a gwblhawyd:** SWSC5
Rwy’n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Enw’r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi’n bersonol a diogel.

**STL2C4: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc** ☆

| **Cyfeirnod yr uned** | **K/616/5442** | **Lefel yr uned** | **2** |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 3 | **ODDA** | 20 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau ac arferion i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc. | | |

| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
|---|---|---|---|
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn amgylchedd dysgu. | 1.1 Disgrifio'r hyn a olygir gan gynhwysiant ac arfer cynhwysol. | | |
| | 1.2 Disgrifio ffyrdd y gall plant a phobl ifanc ddioddef rhagfarn a gwahaniaethu. | | |
| | 1.3 Nodi deddfwriaeth gyfredol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn amgylchedd dysgu. | | |
| | 1.4 Disgrifio sut mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnal drwy bolisi a gweithdrefnau. | | |
| | 1.5 Disgrifio buddion ymarfer cynhwysol mewn amgylchedd dysgu. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 2. Deall sut i gyfrannu at gynnwys plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. | 2.1 Esbonio ymarfer cynhwysol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol ac anableddau penodol. | | |
| | 2.2 Disgrifio buddion gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL2C4
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL2C5: Cynnal perthnasoedd â phlant a phobl ifanc**

| **Cyfeirnod yr uned** | M/616/5443 | **Lefel yr uned** | 2 |
|---|---|---|---|
| **Gwerth credyd** | 3 | **ODDA** | 20 |
| **Nod yr uned** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal perthnasoedd â phlant a phobl ifanc. Mae'n gofyn am arddangos sgiliau wrth gyfathrebu â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â datblygu a chynnal perthnasoedd â phlant a phobl ifanc ac eraill yn yr amgylchedd dysgu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | | **Rhif Canolfan:** | |
| **PIN:** | | **RhUD:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1. Deall cyfathrebu effeithiol gyda phlant a phobl ifanc. | 1.1 Disgrifio sgiliau **cyfathrebu** effeithiol gyda phlant a phobl ifanc. | | |
| | 1.2 Nodi rhwystrau i gyfathrebu ac awgrymu ffyrdd y gellir goresgyn y rhain. | | |
| 2. Deall perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. | 2.1 Esbonio'r term perthynas broffesiynol. | | |
| | 2.2 Nodi ffyrdd y gellir sefydlu a chynnal perthnasoedd proffesiynol. | | |
| | 2.3 Nodi rhwystrau i feithrin a chynnal perthynas broffesiynol â phlant a phobl ifanc a ffyrdd y gellir goresgyn y rhain. | | |
| 3. Gallu meithrin a chynnal perthynas broffesiynol gyda phlant a phobl ifanc | 3.1 Defnyddio cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc. | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>Bydd y dysgwr yn: | **Meini prawf asesu**<br>Mae'r dysgwr yn gallu: | **Cofnod tystiolaeth**<br>e.e. rhif tudalen & dull | **Dyfarniad aseswr**<br>Blaenlythrennau a dyddiad |
